# CROESO I GYLCHLYTHYR CARFAN CYMORTH CYNNAR A RHAGLENNI CYMUNEDOL RHCT GYDA'N GILYDD

RHIFYN: 01
MEHEFIN 2026




RhCT Gyda'n Gilydd - Helpu Cymunedau a Thrigolion i Ffynnu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf


**Cynnwys:**

- Tudalennau 2 - 7 – Cyflwyno Adran Newydd
- Tudalen 8 – Cysylltwch â'r Garfan

# CYMORTH CYNNAR A RHAGLENNI CYMUNEDOL


**Mae pethau wedi newid……..**
**ac mae adran Cymorth Cynnar a Rhaglenni Cymunedol newydd bellach yn rhan o Wasanaeth RhCT Gyda'n Gilydd**
☺

# Gwasanaeth Cymorth Cynnar





Cymorth Ataliol yn y Gymuned – Mae'r Garfan Cymorth Cynnar yn cydlynu'r cymorth ataliol amserol sy'n cael ei ddarparu gan wasanaethau a phartneriaethau yn y gymuned sy'n ymateb i anghenion trigolion.

Sgyrsiau a Rhwydweithiau Cymunedol – Datblygu Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned a'r Rhwydweithiau Cymdogaeth presennol a hwyluso sgyrsiau, nodi blaenoriaethau lleol a chyd-gynhyrchu datrysiadau.






# Gwasanaeth Asedau a Chyfleusterau Cymunedol




Rheoli Cyfleusterau Cymunedol - mae'r garfan yma'n rheoli proses y Cyngor ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol, rheoli lleoliadau a chefnogi pwyllgorau gwirfoddol i gynnal rhaglenni cymunedol mewn modd effeithiol.

Cynlluniau Cydnerthedd mewn Argyfwng – mae'r garfan yma'n ein galluogi i baratoi cyfleusterau'n gyflym yn ystod argyfyngau fel llifogydd, pandemig, neu argyfwng costau byw.

Mentrau Cynaliadwy – mae'r garfan yma'n hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ac yn lleihau tlodi bwyd a thanwydd drwy ddarparu prosiectau cynaliadwyedd wedi'u targedu.

Darpariaeth Gwasanaeth Integredig – cydlynu cyllid a gwasanaethau ar gyfer asedau ffisegol, a hynny er mwyn datblygu cymunedau cydnerth a chynhwysol.




# Gwasanaeth Rhaglenni a Grantiau Cymunedol




Rheoli Grantiau a Chydymffurfiaeth – mae'r garfan yn rheoli grantiau cymunedol gan sicrhau cydymffurfiaeth gytundebol a gwerth am arian trwy weithredu trefniadau monitro ac adrodd cadarn.

Rheoli a monitro contractau – mae'r garfan yn rheoli perthnasoedd â chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau yn y gymuned. Maen nhw'n cychwyn adolygiadau, ac yn eu trafod er mwyn ymateb yn effeithiol i anghenion cymunedol sy'n esblygu.




Cyllid a Chymorth Strategol – mae'r garfan yn sicrhau cyllid allanol ac yn cefnogi mentrau fel Cymunedau Oed-gyfeillar a Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

Cydweithio a Defnyddio Adnoddau – mae'r garfan yn ymgysylltu â'r Gwasanaethau Cymorth Cynnar ac Asedau a Chyfleusterau i ddyrannu cyllid er mwyn ymateb i anghenion y gymuned a manteisio ar adnoddau.





# Cymorth Cynnar a Rhaglenni Cymunedol

**Syd Dennis**
Pennaeth y Gwasanaeth

**Bedwyr Harries**
Rheolwr y Gwasanaeth
Cymorth Cynnar

**Cymorth Cynnar**
Sgyrsiau Cymunedol
Model Ymateb Graddedig
Cymorth i Drigolion
Rhwydweithiau Cymdogaeth

**Cysylltwch â'r Garfan**
HybiauCymunedolCydnerth@rctcbc.gov.uk

**Louise Thomas**
Rheolwr y Gwasanaeth
Asedau a Chyfleusterau
Cymunedol

**Asedau a Chyfleusterau Cymunedol**
Seilwaith sy'n seiliedig ar le
Y Broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol
Rheoli adeiladau a
Gweithrediadau lleoliadau

**Cysylltwch â'r Garfan**
RhCTGydanGilydd@rctcbc.gov.uk

**Dean Emson**
Rheolwr y Gwasanaeth
Rhaglenni a Grantiau
Cymunedol

**Rhaglenni a Grantiau Cymunedol**
Peiriant Cyllido a Chydymffurfiaeth
Rheoli Grantiau a Chontractau,
Cymunedau Oed-gyfeillgar a Lleoedd Bwyd
Cynaliadwy

**Cysylltwch â'r Garfan**
llenyddiaethagrantiaucymunedol@rctcbc.gov.uk

**Daliwch ati i ddarllen i gael rhagor o wybodaeth am bob carfan.**



Gwefan RhCT Gyda'n Gilydd yw'r lle gorau o hyd i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf a chadw mewn cysylltiad wrth i ni ddatblygu'r adran. ☺

**Cysylltwch â'r garfan**

**Gwasanaeth Cymorth Cynnar**

**Cysylltwch â'r garfan**

**Gwasanaeth Cyfleusterau ac Asedau Cymunedol**

**Cysylltwch â'r garfan**

**Gwasanaeth Rhaglenni Cymunedol a Grantiau**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

BALCH O'R MISLIF | PERIOD PROUD
#BalchOrMislif
llyw.cymru/balchormislif
#PeriodProudWales
gov.wales/periodproud

Dementia Friends
An Alzheimer's Society initiative

Oed-Gyfeillgar
Age-Friendly
Rhondda Cynon Taf

SUSTAINABLE FOOD places
RCT BRONZE

SUSTAINABLE FOOD places

Croeso Welcome